ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 1 Cyfrol 11 Ionawr 2014

GWEINIDOG: Y PARCHEDIG ERIC JONES BD
Gwernyfed, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2DZ Ffôn 01248 362127
e-bost: ericaval@btinternet.com

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

TRI GŴR DOETH BEREA NEWYDD

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Ionawr	**26**	Maldwyn Thomas *Undebol Hwyr Pendref*
Chwefror	**2**	Gweinidog
	9	
	16	Gweinidog
	23	Dr Eryl Wyn Davies *Undebol Hwyr Penuel*
Mawrth	**2**	Gweinidog *Cymun Bore*
	9	Mr Glyn Owen
Mawrth	**16**	Gweinidog
	23	*Undebol Hwyr Berea*
	30	Parch Aled Davies
Ebrill	**6**	Gweinidog *Cymun Hwyr*
	13	Parch Harri Parri
	20	Gweinidog
	27	Parch Adrian Williams *Undebol Hwyr Pendref*

DYLETSWYDDAU

BLAENOR Y PYTHEFNOS

Ionawr	**26**	Menna Baines *Undebol Hwyr Pendref*
Chwefror	**2**	Menna Baines
	9	Wyn Griffiths
	16	Wyn Griffiths
	23	Geraint Hughes *Undebol Hwyr Penuel*
Mawrth	**2**	Geraint Hughes *Cymun Bore*
	9	Gwenno Pritchard
	16	Gwenno Pritchard
Mawrth	**23**	Gareth Emlyn Jones *Undebol Hwyr Berea Newydd*
	30	Gareth Emlyn Jones
Ebrill	**6**	Eirian Howells *Cymun Hwyr*
	13	Eirian Howells
Pasg	**20**	Alwyn Lloyd-Ellis
	27	Alwyn Lloyd-Ellis *Undebol Hwyr Pendref*

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

26 Ionawr	Margaret Tilsley
2 Chwefror	Gwenno Pritchard
9 Chwefror	Meira Jones
16 Chwefror	Astra Thomas
23 Chwefror	Manon Davies
2 Mawrth	Elizabeth Evans
9 Mawrth	Beryl Stafford Williams
16 Mawrth	Eleri W. Jones (Bedwyr)
23 Mawrth	Betty Thomas
30 Mawrth	Val P. Jones
6 Ebrill	C. Frazer Jones
13 Ebrill	Laura Lewis
20 Ebrill	Ann Roberts Cil-y-Bont
27 Ebrill	Menna Baines

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Beth yw ein profiad o Dduw ar ddechrau blwyddyn newydd? Wrth edrych yn ôl ar yr hen flwyddyn onid priodol ydyw cydnabod cynhaliaeth Duw trwy'r profiadau melys a chwerw a gafwyd. Gallwn ninnau yn wylaidd ddweud fel yr Israeliaid gynt **"hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd nyni."** (1Sam.7: 12). Boed i hynny barhau i fod yn brofiad i ni trwy gydol 2014.

Oni chafwyd Nadolig prysur a gwir fendithiol yn ein heglwys? Am y tro cyntaf sylwais fod angen un bwrdd ychwanegol yn y festri i'r plant gael parti. Amheuthun oedd gweld parti canu'r ifanc gydag un o'u plith yn cyfeilio iddyn nhw yn eu gwasanaeth. Yna dwy ddrama, gyda mwy na hanner cant o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan, a chynulleidfa o 200 o leiaf yn bresennol. Er hynny gwelwyd gostyngiad yn y nifer a ddaeth i'r Blygain Fach, a hynny oherwydd fod cymaint ohonoch bellach yn mynd at eich plant dros yr Ŵyl. Mae'r casgliad o £170 at Fugeiliaid y Stryd yn dweud yn dda am yr oedfa undebol bore Nadolig. Diolch ichi am y casgliadau at y Philipinas sef £655, ac am barhau i roi tuag at y banc bwyd.

I gwblhau ein dathliad yn ddeg oed, anfonais wahoddiad i 59 o'n hieuenctid a dderbyniwyd yn gyflawn aelodau i ymuno gyda ni yn un o'n pedwar Gwasanaeth Nadolig. Gwelais i 25, ac fe dderbyniais un ymddiheurad. Gallasai'r ymateb fod yn well, a gallai fod yn waeth.

Y fath hyfrydwch a gawsom wrth fedyddio Efan Heber, mab cyntafanedig Rhys a Manon Jones, ac Owi Gwyn, mab cyntafanedig Dylan a Siwan Davies. Llongyfarchwn Owain a Nerys (Caerdydd) ar enedigaeth Caio Ifan. Gwaetha'r modd rhaid cydymdeimlo hefyd, a hynny â theuluoedd Mr Bleddyn Anwyl Williams, Mrs Myra Roberts, Mrs Megan Roberts a Mrs Blodwen Griffiths. Diolch i Mr William Owen am dynnu fy sylw at englyn un o'n haelodau a ymddangosodd yn y *Cymro*, sef Mr Bryn Jones, Allt Dewi, a gollodd ei dad yn ddiweddar.

Ei hafau ger yr afon, fan honno
Fu'n anwes i'w galon;
Pysgotwr, ffrind a gwron
Ar ei daith tu draw i'r don.

Gweithiwn a gweddïwn yn ddiflino yn 2014, er sicrhau **"y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad"** (Philipiaid 2:11).

Eric Jones

BARNWR BRYN ADDA

MALDWYN THOMAS

Un noson dduoer yn ystod yr hirlwm ar ôl y Rhyfel Mawr y mae E. Morgan Humphreys, golygydd *Y Goleuad*, yn eistedd o flaen y tân yn stydi Bryn Adda, Penrhosgarnedd, cartref y Barnwr John Bryn Roberts. Mae hi'n tynnu am hanner nos a'r sgwrs yn troi at weinidogion a chapel. Dyma ofyn i Bryn Roberts am ei farn am sylw sydd yn *Y Goleuad* cyfredol. Mae o'n syllu ar y golygydd a'i fwstas trwm yn codi:

"Tydi barn merch, pregethwr neu athro coleg ddim yn werth ei chael ar unrhyw bwnc."

Mae Bryn Roberts yn siarad o argyhoeddiad llwyr a rhagfarn gref. Dyma fo yn ei gadair o flaen y tân a gwres fflamau yn dod â'u syrthni i'r stydi. Bryn Roberts, yr hen lanc, y blaenor Methodus yng Nghapel y Graig, yr heliwr cadarn, y dyn sydd wedi bod yn aelod seneddol Rhyddfrydol hen etholaeth Eifion, ym mhen isa'r hen sir Gaernarfon o 1885 i 1906 cyn iddo gael ei apwyntio yn Farnwr Sirol yn y de, ac yna yn ddiweddarach yn y gogledd.

Rhyddfrydwr o'r hen deip, heb nemor ddim i'w ddweud wrth radicaliaeth Lloyd George nac wrth fudiad Cymru Fydd a'r gobaith am hawliau gwleidyddol i Gymru. Mae o'n ffermio Bryn Adda ac wrth ei fodd yn byw bywyd ffermwr ysweiniol, yn byw y bywyd da yn nyddiau machlud yr hen Ryddfrydiaeth.

Yn hwyrach, yn llawer hwyrach, ar ôl sigâr a gwydryn clên o glaret, y mae Morgan Humphreys yn hwylio i fynd tuag adref. Dim sôn am yfed a gyrru. Mae

Bryn Roberts yn berchen ar Austin, ac yn cynnig hebrwng Morgan Humphreys yn ei ôl am Gaernarfon.

"Mi ydw i wedi trefnu tacsi, er ei bod hi'n hwyr," ydi geiriau'r golygydd. Mae yna ryddhad yn ei lais o, mae Bryn Roberts yn beryg bywyd tu ôl i olwyn moto car. Hen heliwr ar gefn ceffyl sydd yn prynu'i gar cyntaf pan mae o'n tynnu at ei bedwar ugain oed. Ac mae o'n dueddol o drin y car fel petai'r peth yn geffyl. Weithiau, wrth yrru i lawr allt Penchwintan, y mae o wedi tynnu yn olwyn yr Austin a gweiddi "We!"

Un gwydryn arall o'r gwin coch, a'r tân yn isel yn y grât.

"Damwain oedd i mi fynd yn dwrna o gwbwl. Mi oedd fy mrawd yn dysgu mynd yn dwrna mewn swyddfa yng Nghaernarfon, ond yn cwyno'n ddifrifol ar ei fyd. "Aros di yma i ffarmio," meddwn i wrtho fo, "ac mi af innau i Gaernarfon i ddysgu bod yn dwrna." Ac felly y bu pethau".

Mae Bryn Adda yn enwog am y croeso sydd yma i lu o bregethwyr sydd yn aros yn yr hen dŷ dros y Sul. Does neb a ŵyr faint dylanwad Bryn Roberts ar feddwl Cymru - trwy hynny yn unig.

METHODUS MAWR

Dyn o ddylanwad mawr yn ei fro ei hun, ond heb ddim yn y Senedd yn Westminster. Ambell dro mi fydd yn sgwennu i'r *Goleuad*, mae o'n Fethodus o'r iawn ryw. Yn Ebrill 1917 mae o'n anfon erthygl sydd yn cael ei chyhoeddi gan Morgan Humphreys o dan y teitl 'Ai Byth?' Galw taer sydd yma am ddiweddu'r rhyfel, am weinio'r cledd. Ceir disgrifiad o'r tlodi a'r caledi sydd yn siwr o ddilyn yr ymladd a'r lladd.

"Y mae cwynfan galarwyr yn y wlad, ond os bydd y rhyfel hwn yn parhau bydd y llais a glywyd yn Rama yn dyrchafu o bob stryd a phentref, a bron o bob cartref yn y wlad, oblegid bydd nifer y lladdedigion wedi dyblu a threblu cyn i'n byddin gyrraedd i derfyn Yr Almaen. Canys pa fodd y gallwn edrych ar y drygfyd a'r tlodi a gaiff ein pobl? A pha fodd y gallwn edrych ar ddifetha ieuenctid ein cenedl? Ai byth y difa y cleddyf?"

"Mae yna rai pobol sy'n methu dallt sut yr ydw i - y blaenor Methodus, yr athro Ysgol Sul - yn mynd ar gefn fy ngheffyl ac yn heliwr - yn hela llwynogod yma, ac yn Sir Fôn."

HELIWR CADARN
A dacw fo ar gefn un o geffylau mawr Bryn Adda, yn syth ac yn drwm yn y cyfrwy a het silc hen ffasiwn ar ei ben. Mae hi'n ddiwrnod llwyd, y bytheaid yn udo, yn cyfarth wrth groesi'r lôn wag ar eu ffordd i lawr am y caeau. Sŵn pedolau'r ceffylau wrth iddyn nhw drotian ar y lôn galed, ac yna wedyn y carnau yn chwalu'r dail o dan y coed, y rhedyn cringoch, a brigau'r drain.

Naid a dim mentro.

"Os oes yna fwlch mewn adwy mi a i am hwnnw bob tro. Does yna ddim byd arwrol yn fy natur i."

Y cŵn yn ffroeni, yn chwalu, y llwynog yn torri ar draws y ffridd, a'i gynffon yn y gwyll. Wedyn yn y diweddydd heb ddal y cadno, a'r clopian yn ôl am Fryn Adda ar hyd y lôn dawel, yr ostler yn dal penffrwyn ceffyl mawr Bryn Roberts, yn tywys yr anifail yn ei ôl am y stablau. Mae'r pnawn wedi bod wrth fodd blaenor Capel y Graig

Wedyn yn ôl am y stydi, arogl lledr a phridd, y tân yn sbarcio yn y grât a'r fflamau ar feingefn y llyfrau cyfraith sydd yn bochio silffoedd Bryn Roberts, y gwladwr a'r gŵr gwingar, y corff cnodiog, y mwstas trwm fel gwrychyn, y dyn caredig pengaled, y meddwl clir, y siaradwr cyhoeddus clogyrnaidd.

BYWYD Y BARNWR BRYN
Mae o wedi ei gladdu yn Mynwent Llanfair-is-gaer ar lan Menai. Dros y dŵr, gyferbyn, y mae mynwent Llanidan, lle mae bedd Ellis Jones Griffith, gwleidydd, cyfreithiwr a'i archedd yn chwim fel cledd - mor wahanol i Bryn Roberts. Yn nes at y Borth ym mynwent Llanfair Pwllgwyngyll, y mae'r maen sydd ar fedd John Morris-Jones, colofn yr iaith. Ac yn ynys Llandysilio y mae Thomas Charles Williams a Henry Rees hwythau. Wedyn ar gyfer Traeth Lafan yn y tawelwch, y mae'r ddau areithiwr mawr - John Elias a John Williams, Brynsiencyn, ochr yn ochr yn fud ym mynwent Llan-faes. Mae Bryn Roberts, Bryn Adda, Penrhosgarnedd, mewn cwmni da ar lan Menai.

Ceir llawer o'r manylion hyn yn ysgrif E. Morgan Humphreys ar Bryn Roberts yn Gwŷr Enwog Gynt, *1950*

Y BANC BWYD

DELYTH OSWY

Ers mis Hydref, mae Berea Newydd yn fan casglu ar gyfer y banciau bwyd lleol. Bob pythefnos, bydd y bocs bwyd yng nghyntedd y capel yn cael ei wagio, a'r bwyd yn cael ei ddanfon unai i'r Gadeirlan neu i Cibyn, Caernarfon i'r banc bwyd.

Dyma ddywed y *Trussell Trust*, y corff sy'n cydlynu mwyafrif y banciau bwyd ym Mhrydain: 'Bob dydd mae pobl ym Mhrydain yn mynd heb fwyd, am resymau fel colli gwaith, neu dderbyn bil annisgwyl.

Mae banciau bwyd yn darparu bwyd i bobl mewn argyfwng. Y llynedd cafodd 350,000 o bobl gymorth ym Mhrydain.

Caiff yr holl fwyd ei gyfrannu gan y cyhoedd, a'i ddidoli gan wirfoddolwyr. Mae gweithwyr proffesiynol fel meddygon neu weithwyr cymdeithasol yn gwirio y bobl sy mewn angen, ac yn dosbarthu tocyn bwyd lle bo hynny'n addas. Mae client yn derbyn bocs o fwyd i bara tri diwrnod; mae hwn yn fwyd maethlon wnaiff ddim pydru. Hefyd caiff y client sgwrs a chyngor gan bobl y banc bwyd. Mae'r banc bwyd yn helpu atal tor-cyfraith, cynnal tenantiaeth, a lleddfu problemau iechyd meddwl. Mae peth mor syml â bocs bwyd yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.'

Mae'r *Trussell Trust* wedi gweithio efo eglwysi lleol a chymunedau i agor dros 200 banc bwyd ar draws Prydain. Diolch i bawb sy wedi cyfrannu yn Berea Newydd.

Mae newidiadau i fudd-daliadau, tan-gyflogaeth, a chynnydd costau byw, wedi golygu bod mwy a mwy o bobl na allant fforddio bwyd digonol.

BYDD Y TLODION GYDA CHWI BOB AMSER

BRUCE GRIFFITHS

Ychydig cyn y Nadolig, crwydrem ganol prysur dinas Bath. Adeg Marchnad y Nadolig oedd hi, ac ugeiniau o stondinau lliwgar ar hyd y strydoedd. Er oerni a thywyllwch yr hwyrddydd, uwchben caneitiai miloedd o oleuadau Nadolig, a phrin y gellid ymwthio trwy'r miloedd o siopwyr. Ni sylwent ddim ar yr ambell dlotyn a welid yn cardota'n fud ar y palmant. Petai pob un ohonynt wedi rhoi ceiniog yr un i'r tlodion hyn, ni welsai ef/hi mo'i cholli ond fe wnaethai fyd o wahaniaeth i'r tlodion digartref hyn. Gwelsom un yn swatio ar ddarn o gardbord ar stepan drws a bicer plastig o'i flaen, yn gobeithio cael ambell hatling, debyg.

Yr oedd yn bennoeth ond wedi ei lapio mewn sawl haen o ddillad trwchus. Er hynny, rhwbiai ei freichiau rhag yr oerfel. Fel arfer, byddaf yn rhoi rhywbeth - rhyw buntan - i bawb o'r fath, heb feddwl ymhellach. Cred Ann ei bod hi'n saffach rhoi bwyd nag arian. Aethom ato, cychwyn sgwrs a'i gymell i ddod i gael paned a thamaid i'w fwyta. Yr oedd wedi rhynnu gymaint fel mai prin y gallai gynnal sgwrs nes iddo gynhesu yn y caffi. Prynwyd pastai Gernywig iddo: yn lle ei llowcio'n awchus, fe'i lapiodd yn ofalus 'er mwyn i mi gael rhywbeth i edrych ymlaen ato heno'. Gŵr 39 oed oedd, James oedd ei enw, a hanai o dref gyfagos.

Buasai'n yrrwr fan ac adwaenai Ogledd Cymru'n dda. Bu'n briod ond fe dorrodd y briodas. Cawsai anaf pur ddifrifol i'w droed ac ar ôl gadael yr ysbyty cafodd iddo golli ei swydd a'i lety. Yr oedd yn Gatholig ac âi i'r eglwys weithiau o hyd. Holem, sut na fyddai'r eglwys yn ei helpu? 'I'm only an embarrassment to them', meddai. Heb lety, ni allai gael swydd: ni fyddai cyflogwr yn ymddiried lori werth can mil o bunnoedd i neb heb gyfeiriad parhaol ganddo. Byddai'n rhaid iddo aros tan ddiwedd mis Chwefror i gael mynd ar restr aros am lety - gan nad oedd yn wreiddiol o Bath, mae'n debyg. Fel arfer treuliai bob nos mewn lle parcio; os câi ddigon o arian, câi fynd i hostel am ryw chwe phunt y noson, os na chyrhaeddai'n rhy hwyr. Mewn wythnos dda gallai fforddio un noson mewn lle gwely a brecwast, er mwyn cael bath. Nid oedd ganddo fawr mwy na'r dillad amdano: nid oedd ganddo le i gadw dim arall, ac anhawster mawr oedd ei gadw ei hun yn lân.

Siaradai'n gwrtais a deallus, gan ymddiheuro droeon am ei gyflwr. Teimlem iddo gael addysg dda rywbryd. Nid oedd arwydd ei fod yn feddwyn nac ar gyffuriau,

ond yn ŵr parchus cymharol ifanc a lithrodd trwy anffawd i gyflwr lle na allai wneud dim i wella ei stâd. Ni ofynnodd inni am arian na dim.

Erbyn hyn yr oedd yn hollol dywyll ac yn oer iawn y tu allan. A thorri'r stori'n fyr: aethom ag ef at dacsi, a thalu iddo fynd i nôl ei bethau o'r lle parcio a chael noson yn y llety. Ni wyddem ba beth arall i'w wneud. Bu Ann mewn cysylltiad â swyddog yn Bath sy'n gyfrifol am y digartref, a chawn fymryn o hanes James.

Ni wyddom sut Nadolig a gafodd, os cafodd Nadolig o gwbl. O leiaf, mae ar dir y byw. Ond mae'r hirlwm eto i ddod arno. Rhywsut, o'i weld a sgwrsio ag ef, ni allwn beidio â meddwl am y truan hwnnw sy'n dweud wrth Iesu, 'Lleng yw fy enw, oherwydd mae llawer ohonom' (Marc, V, 9).

Os na allwn wneud rhagor i James, mae pobl ddigartref ym Mangor hefyd. Mae Hostel y Santes Fair (362211) yn falch o nwyddau i'r rhai nad oes gwely ar eu cyfer: hen sachau cysgu, dillad cynnes, fflasgiau; holwch nhw, os credwch y gallwch sbario rhywbeth.

CYNGERDD DATHLU PENBLWYDD Y CAPEL YN 10 OED

ERIC JONES

SUL, HYDREF YR 20FED: Gwefreiddiol oedd canu Côr Seiriol, ac uchafbwynt eu gwaith, oedd canu cywydd yr Athro Peredur Lynch a gyfansoddwyd yn un swydd ar achlysur penblwydd y capel. Darllenwyd y cywydd gan Sara Tudor. Cafwyd datganiadau hyfryd gan Dafydd Wyn, darnau ar y piano a gafwyd gan Cian Tudur, ac ar yr organ, gan Robert Luke Jones. Datgan ei hargyhoeddiad dros werth yr Ysgol Sul a wnaeth Elen Ogwen Jones, Ysgrifennydd cyntaf yr eglwys, a Llywydd Anrhydeddus y Cyngerdd. Arweiniwyd y cyfan yn ddeheuig gan Nia Gwynn a diolchodd y gweinidog i bawb am eu cefnogaeth i'r dathliad, ac i Liz Roberts am gymryd y cyfridoldeb am y trefniadau.
Ar ddiwedd y cyfarfod cyflwynwyd blodau a siec i Delyth Wynn Davies am ei blwyddyn o waith fel gweithiwr Plant ac Ieuenctid ddiwyd a hynaws.

CYNGERDD BLYNYDDOL

Yn ôl ein harfer ers aml i flwyddyn bellach unodd Cylch y Chwiorydd a'r Gymdeithas i gynnal noson ar y 12fed o Ragfyr. Gwahoddwyd Côr Dre o Gaernarfon, a bu edrych ymlaen at glywed côr newydd i ni. Ac yn sicr 'chawsom ni mo'n siomi. Roedd egni, brwdfrydedd a phroffesiynoldeb y bobl ieuainc hyn yn heintus a'u hymateb i'w harweinydd, Siân Wheway, yn ddisgybledig gan greu cerddoriaeth i'n swyno ni oll. Cafwyd amrywiaeth o ganeuon gan y côr a'r unawdwyr ac unawd piano i'w gofio.

Amheuthun oedd gweld aelodau'r côr yn ymlacio yn ein cwmni uwchben paned yn y festri wedyn.

Diolch i Gôr Dre am ein paratoi ar gyfer y Nadolig mewn modd mor ysbrydoledig.

OS AM GYFRANNU I'R RHIFYN NESAF O ICHTHUS, YNA GALLWCH:

➽ **EI YRRU I 4 GOLEUFRYN, PENRHOSGARNEDD LL57 2LY**

➽ *neu* **GYRRWCH E-BOST AT** *gdeiniol@hotmail.com*

I GYRRAEDD ERBYN Y 1af O EBRILL OS GWELWCH YN DDA

MWY O ENWAU LLEOL

GLENDA CARR

LLANDYGÁI

Hyd yn gymharol ddiweddar, *Llandegai* oedd ffurf arferol enw'r plwyf a'r pentref hwn ar gyrion Bangor, a mynn rhai lynu o hyd wrth y ffurf hon. Fodd bynnag, y ffurf swyddogol bellach yw *Llandygái,* a'm tasg i y tro hwn fydd ceisio esbonio'r rheswm dros y newid hwn.

Yn ôl y traddodiad, sefydlwyd yr eglwys yn *Llandygái* yn y bumed ganrif gan Tegai Sant a ddaeth yno o Lydaw. Nid rhyfedd, felly, i'r eglwys gael ei henwi yn 'eglwys Tegai', sef *Llandegai*. Rydym yn ynganu enw'r sant gyda'r acen ar y sillaf gyntaf, sef *Tégai*, ond hyd yn oed pan arferid sillafu'r enw yn *Llandegai*, ar yr *a* derfynol y rhoem y pwyslais, nid ar yr *e*. *Llandegái* a ddywedem, nid *Llandégai*. Mae hyn yn beth rhyfedd oherwydd mae'r acen fel rheol yn disgyn ar y sillaf olaf ond un yn y Gymraeg; dywedwn *Llandẃrog, Llandúdno, Llanẃnda* yn hollol naturiol. Felly, pam *Llandegái* yn hytrach na *Llandégai*? Bellach sillefir yr enw fel *Llandygái* gyda'r acen wedi ei nodi'n glir ar y sillaf a bwysleisir, sef yr olaf. Felly, ai 'Tegai' sydd yma?

Ymhell bell yn ôl ceid arfer ryfedd yn y Gymraeg o ddefnyddio geiryn bach ar ddechrau enw personol i ddynodi parch neu anrhydedd. Y rhagddodiad hwn oedd *ty-*, neu *dy-* ambell waith. Yn eu llyfr *Dictionary of the Place-Names of Wales* galwodd Hywel Wyn Owen a Richard Morgan y rhagddodiad bach hwn yn *'unstressed honorific prefix'*. Mae'n arbennig o gyffredin gydag enwau'r seintiau cynnar. Er enghraifft, gellir gweld y rhagddodiad hwn yn glir yn yr enwau *Llandysilio* a *Llandysul*. Anwybyddwch yr elfen *llan* am funud ac edrych ar yr ail elfen heb y treiglad ar ei blaen. Yr hyn sydd gennym yw *Tysilio* a *Tysul*. Awgrymodd Melville Richards mai enw personol oedd *Sul* yma. Ffurf ar yr enw *Sulien* oedd hwn o bosib, a ffurf anwes neu ffurf fwy anffurfiol arno oedd *Sulio*. Os oedd yr hen Gymry am ddangos eu parch tuag at y sant hwn, newidient yr enw personol i *Tysul* a *Tysulio*. Ystyriwch enghraifft arall: ceir *Llanfaelog* ym Môn, a thri lle o'r enw *Llandyfaelog*, dau ym Mrycheiniog ac un yn Sir Gaerfyrddin. *Maelog* yw'r sant ym mhob un, ond yr oedd y Deheuwyr yn fwy parchus ohono na'r Monwysion, gan iddynt hwy roi'r *ty- / dy-* anrhydeddus o flaen ei enw.

Nid wyf wedi anghofio am *Landygái*. Yr hyn sydd gennym yma yw'r enw *Cai* gyda'r *ty- / dy-* anrhydeddus o'i flaen. Gellwch weld yn awr pam mae'r acen ar y sillaf olaf. Nid *Tegai* sydd yma ond *Tygai*. Ar yr ail sillaf mae'r pwyslais: fe gofiwch mai rhagddodiad 'unstressed', sef diacen, oedd *ty-*. Newidiwyd y sillafiad i ddangos ein bod wedi sylweddoli beth oedd gwir darddiad yr enw. Ond roedd atgof o'r enw gwreiddiol yn fyw yn isymwybod y trigolion lleol trwy'r canrifoedd, gan eu bod bob amser trwy reddf wedi pwysleisio'r sillaf olaf ar lafar yn enw *Llandygái.*

Y GORNEL WEDDI

VAL P JONES

“GWNAF”

Ar gais y panel Golygyddol ceisiaf rannu’r canlynol gyda chi, ond ni allaf byth gyfleu’r naws, y didwylledd, a’r distawrwydd sanctaidd a brofasom yno.

“A wnewch chi ofalu am y Cyfarfod Gweddi nos Fercher y 9fed o Ionawr?” oedd cri yr annwyl Elisabeth Evans, ysgrifennydd Cymdeithas y Chwiorydd. “Gwnaf fy ngorau, os byw ac iach,” oedd fy ymateb innau. Dim ond unwaith y bu’n rhaid imi ofyn i’r pedair a gymerodd ran gyda mi, a “Gwnaf” oedd eu hateb caredig hwythau. “Er nad wyf erioed wedi gwneud o’r blaen,” oedd ateb ambell un. Mentrais ofyn i bedair brysur, ond y rhai prysur sy’n cyflawni cymaint fel arfer, ynte ?

Ceisiais i agor y cyfarfod trwy ddarllen Salm 100 ac ymateb i ran o neges heriol y gweinidog bore Sul diwethaf, wrth iddo ein hatgoffa mai gwaith yr eglwys yw Addoli, Cenhadu a Gwasanaethu. Yn ostyngedig rhannaf bigion o’m gweddi gyda chi yn unol â’r cais:

Dy addoli di yr Hollalluog Dduw ydy ein braint a’n priod waith fel aelodau o’th eglwys. Diolchwn am waith diflino y gweinidog a nifer o’n blaenoriaid, ac eraill sy’n ymdrechu i gynnal yr addoliad. Ond, O Arglwydd, oes ‘na rywbeth yr hoffet Ti i ni ei wneud i fywiogi ein mawl ac i ddyfnhau a bywhau ein haddoliad ?

Gweddïwn am dy fendith ar ein cenhadaeth o fewn dy eglwys. Cofiwn am yr henoed a’u holl anghenion, y canol oed yng nghanol eu holl ofalon, a’r ifanc gyda’u bywydau dan ormes y gwefannau cymdeithasol Sul, gŵyl a gwaith. Helpa hwy i neilltuo amser iti, a dod i’th addoli. Cymorth ni i fagu ein plant yn y Ffydd ac i gyflwyno’r Arglwydd Iesu’n ffrind ac yn Waredwr iddynt.

Tra ’rydym yn gofyn am gymaint o gymorth i ni ein hunain, helpa ni i gofio am eraill sydd y tu allan i ddrws agored ein capel. Boed i ni barhau i fod yn

hael ein cyfraniad i'r anghenus ar garreg ein drws a'r rhai sydd y tu hwnt i'n cyrraedd. Gwrando ein gweddi syml yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist. Amen.

Elin Owen, mam i ddau o blant, wnaeth ein harwain at eiriau Crist ei hun trwy ddarllen Y Gwynfydau (Mathew 5ed bennod) a'n harwain i weddïo Gweddi'r Arglwydd. Manon Ogwen Williams ddarllenodd Actau 3:1-10, sef pennod yn sôn am un yn cael ei iacháu, ac yna darllen penillion y diweddar Gareth Maelor am ei brofiad o fod yng nghlinig dydd Ward Alaw. Yna offrymodd weddi gynnes a chymwys. Myfyrdod o waith Maurice Loader yn sôn am John Reith, mab y Mans a chyfarwyddwr y BBC pan agorwyd Broadcasting House, a gafwyd gan un sy'n gweithio i'r gorfforaeth, sef Nia Gwynn. Gwelwyd fel yr oedd John Reith wedi seilio safonau a delfrydau uchel y BBC ar eiriau Paul at eglwys Philipiaid 3:20 a 4:9.

Golygodd ymdrech fawr i Bethan Whittall gyrraedd a hithau'n arolygu yn un o ysgolion uwchradd Gwynedd. Cawsom ein hatgoffa ganddi fel yr oedd y thema o wasanaethu Duw trwy wasanaethu eraill wedi amlygu ei hun trwy'r cyfarfod. Bu iddi gloi'r cyfan trwy ddarllen hanes Iago ac Ioan yn ymryson am le wrth ochr y Crist yn ei deyrnas..Mathew 20:20-28. Clywyd llais Gareth Maelor drachefn pan ddarllenwyd myfyrdod o'i waith ar ffuf gweddi.

Cefais fy magu gyda'r ymadrodd, "Moddiannau dechrau'r flwyddyn", ar wefusau fy rhieni ac aelodau Capel Ifan, Llannerch-y-medd. Hyderaf fod y cyfarfod syml hwn wedi bod yn "foddion gras" i bawb oedd yn bresennol. Clod i Dduw.

HWYL DIWEDD TYMOR

TOMOS A MEILYR LYNCH

NOSON DIWEDD TYMOR CIC BANG

Nos Wener, 20fed o Ragfyr, cefais i a nifer o ffrindiau amser gwych yn noson olaf Cic Bang cyn y gwyliau. Cawsom lawer o hwyl wrth chwarae'r *Playstation* a'r *Xbox*, a nifer o weithgareddau megis tenis bwrdd a pŵl. Cawsom archebu *pizza* o *Dominos*.....mmmmm. Diolch yn fawr i Elen a Dilwen am noson dda.

Tomos

NOSON DIWEDD TYMOR CIC BACH

Nos Wener, 20fed o Ragfyr, cefais i a dau o fy ffrindiau fynd i noson olaf Cic

Bach cyn y gwyliau. Cyrhaeddais drwy'r drws a gwibio at y bwrdd tenis bwrdd gyda un o fy ffrindiau a dechrau chwarae gêm i drio cadw'r bêl oddi ar y llawr tra oedd fy ffrind arall yn chwarae *Xbox*. I fwyta cefais *Pringles* a phaced o greision. Roedd hi'n noson llawn hwyl ac rydw i'n edrych ymlaen at y tymor nesaf.

Meilyr

DIOLCH

Gair bach i ddiolch am y croeso mawr rwyf wedi ei dderbyn gennych yn ystod y deufis a aeth heibio. Mae pawb wedi bod mor groesawgar a charedig; rwy'n teimlo yn gartrefol iawn. Un o'r uchafbwyntiau hyd yma oedd cyfraniad y rhai hŷn at ddathliadau'r Nadolig. Rwy'n ddiolchgar am eu hymdrechion a chefais lawer o hwyl yn eu cwmni.

Bu'n bleser croesawy aelodau newydd i CIC Bach a Bang, edrychaf ymlaen i weld cynydd pellach yn yr aelodaeth. Braint a hwyl yw bod yng nghwmni difyr a llon y rhai ifanc. Rydym yn ffodus iawn.

Rwyf wrthi'n llunio rhaglen gweithgareddau CIC, ac fe'i chyhoeddir cyn gynted a phosib. Yn y cyfamser, rwy'n siwr fod gan nifer ohonoch syniadau difyr ynglyn â'r gweithgareddau; buaswn yn falch iawn o'u clywed.

Byddwn hefyd yn falch o'ch cwmni ac yn gwerthfawrogi eich cymorth yn ystod sesiynau'r clwb. Bydd eich cyfraniad unwaith mewn tymor yn cyfoethogi a hwyluso rhediad y clwb.

Cysylltwch â mi mor fuan a phosib os gwelwch yn dda.

Unwaith eto diolch i bawb am y croeso, ac i chi y rhai ifanc am eich cyfraniadau.
BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB!

Elen Wyn

BARA EIN BYWYD
ADOLYGIAD O GYFROL TUDOR DAVIES

EIRLYS JONES

Cefais wefr o ddarllen y gyfrol hon o waith y Parchedig Tudor Davies , ffrind teuluol ac un fu'n weinidog ar eglwysi Wesleaidd Bangor a'r Cylch am flynyddoedd. Cofiaf ef fel gŵr hawddgar, annwyl a didwyll ac eto'n llawn hwyl a gwên ar ei wyneb bob amser pan ymwelai â'n cartref. Cyfaill gorau ieuenctid yr eglwys ar y pryd. Cyfeillgarwch a barhaodd drwy'r blynyddoedd.

Casgliad o emynau, cerddi cyfarch i gyfeillion ac ysgrifau yr awdur a geir yn y gyfrol hon yn ogystal â nodiadau gan yr awdur yn egluro cefndir yr hyn a symbylodd y cyfansoddi. Adran ddiddorol iawn. Yn ei gyflwyniad i'r gyfrol fe ddywed Rhidian Griffiths, "Fe fydd unrhyw un a gafodd yr hyfrydwch o'i adnabod yn clywed ei lais yn eglur yn y darnau hyn." Dyna'n union fy nheimladau innau hefyd.

Cymdeithas Emynau Cymru yw cyhoeddwyr y gyfrol. Copi ar fenthyg gan y Parchedig Eric Jones ydw i wedi ei ddarllen. Diolch iddo am dynnu fy sylw at y gyfrol. Mi wn yn iawn beth fydd y cam nesaf. Prynu fy nghopi fy hun o'r gyfrol a'i thrysori.

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Emynau Cymru.

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

CYLCH Y CHWIORYDD

ELIZABETH EVANS

BRENDA WYNNE JONES - YR IFACIWÎS
7.11.2013 - 2 o'r gloch

Daeth nifer reit dda o chwiorydd ynghyd o dan lywyddiaeth Astra Thomas.

Cyd-ddarllenwyd y Datganiad.

Cymerwyd y defosiwn gan Liz Roberts gyda Mona Chambers yn cyfeilio.

Darllenwyd llythyr o ddiolch gan Cymorth i Ferched Bangor am ein rhoddion ar gyfer ystafell ymolchi i ferched.

Y wraig wâdd oedd Brenda Wynne Jones a'i phwnc oedd "Ifaciwîs" Yn enedigol o Garneddi, 'roedd Brenda wedi mynychu ysgolion Penybryn a Dyffryn Ogwen. Wedyn ymlaen i Goleg Aberystwyth a graddio Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg. Bu mewn amryw swyddi ac wedi ymddeol cymryd diddordeb mewn ysgrifennu. Ysgrifennodd lyfrau ar gyfer plant pan sylweddolodd nad oedd rhai ar gael yn y Gymraeg am hanes yr ardal.

'Roedd tua 600 o Ifaciwîs wedi dod o Lerpwl i ardal Bethesda a Bangor toc ar ôl i'r rhyfel dorri allan. Bu trigolion yr ardal yn garedig iawn yn eu derbyn i'w cartrefi. 'Roedd y nifer ychwanegol o blant yn rhoi pwysau garw ar yr ysgolion lleol. Ar y cychwyn bu rhaid addysgu plant lleol yn y bore a'r newydd ddyfodiaid yn y pnawn. Bu i weinidog Jerusalem ymddiswyddo oherwydd bod y blaenoriaid yn gwrthwynebu i'r plant gael addysg yn y festri a'r ystafellodd eraill. Gadawodd y weinidogaeth a mynd yn dwrna!

'Roeddd hyn yn effeithio ychydig ar iaith y plant lleol. 'Roeddynt yn dysgu rhigymau Saesneg ac yn eu defnyddio yn eu chwarae ar yr iard.

Atgoffwyd ni am effaith y rhyfel ar bawb e.e. "Rations Books", "Identity Cards", "Gas Masks", y "Siren" ar gyfer rhybudd o awyrennau yn ymosod.

Erbyn 1944 'roedd rhan helaeth o'r Ifaciwîs wedi dychwelyd gartref ar wahan i' r rhai ymgartrefodd yma.

Diolchodd Cynthia Owen i Brenda am ei sgwrs ddiddorol. Cawsom baned dan ofal Wenna Parry, Helen Morris ac Elizabeth Evans.

PARATOI AR GYFER DIWRNOD BYD EANG Y CHWIORYDD
Tachwedd 13

Aeth Eirian Howells, Cynthia Owen ac Elizabeth Evans i Rhuthun ar gyfer paratoi gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd 2014. Yng nghyfarfod y bore, bu chwiorydd Bethania yn cynnal y gwasanaeth sydd wedi ei drefnu gan Chwiorydd yn yr Aifft. Yn y pnawn cawsom ein rhoi mewn pedwar grŵp i drafod Dŵr, Gweddi, Maddeuant, hefyd Cymod a Heddwch. Bu'n ddiwrnod bendithiol iawn.

BEDYDD

Bore Sul, Rhagfyr y 15fed bedyddiwyd Owi Gwyn, mab bach cyntaf-anedig Dylan a Siwan Davies, Bryntawel gynt, ond Nant Bleddyn, Llansannan erbyn hyn.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

POLYN HALEN

'Roedd athrawes Ysgol Sul wrthi'n adrodd hanes gwraig Lot wrth y dosbarth gan esbonio iddi droi i mewn i golofn o halen wedi iddi edrych yn ôl.

"Tydi hynna ddim byd," meddai un o hogiau'r dosbarth.

"Mi oedd Mam yn gyrru'r car y diwrnod o'r blaen a phan edrychodd hi yn ôl mi droeodd i mewn i bolyn trydan!!"

Ymddiheuriadau hefyd am roi diolchiadau i Margaret Thomas am gyfrannu jôc yn y rhifyn diwethaf. I'w chwaer sef Mair Thomas ddylai'r diolch fod wedi mynd. Ond mae croeso i chi gysylltu hefo mi Margaret os oes gennych chwithau stori ddoniol neu jôc i'w gyfrannu!

SALM AC EMYN

IONAWR 26			
Salm 8	Gwion Sion	Emyn 373	Ifan Sion
CHWEFROR 2			
Salm 1	Owain Walker Jones	Emyn 681	Dewi Walker Jones
CHWEFROR 9			
Salm 67	Iolo Evans Jones	Emyn 145	Owain Edwards
CHWEFROR 16			
Salm 150	Alys McCann	Emyn 147	Rhys Owen
CHWEFROR 23 HANNER TYMOR			
MAWRTH 2			
Salm 46	Guto Llŷr Davies	Emyn 57	Catrin Lois Edwards
MAWRTH 9			
Salm 146	Gwen Alaw Roberts	Emyn 411	Rhys Roberts
MAWRTH 16			
Salm 121	Ela Vaughan Roberts	Emyn 274	Daniel Rhys Jones
MAWRTH 23			
Salm 138	Carwyn Sion	Emyn 58	Eleri Roberts
MAWRTH 30 SUL Y MAMAU			
Salm 134	Siwan Huw Williams	Emyn 52	Efa Huw Williams
EBRILL 6			
Salm 23	Lois Medi Wiliam	Emyn 141	Owain Williams
EBRILL 13 SUL Y PALMWYDD			
EBRILL 20 SUL Y PASG			
Salm 93	Tomos Ifan Lynch	Emyn 157	Meilyr Lynch
EBRILL 27			
Salm 66:1-4	Llio Eurgain Williams	Emyn 871	Mia Roberts

Diolch YN FAWR am eich cyfraniad.
Os ydyw plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall,
hysbyser Kathy - kathy.sion@btinternet.com neu 364957. Diolch

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA NEWYDD AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org
www.henaduriaetharfon.org

Y DIGWYDDIADUR

IONAWR

CYFARFODYDD CYTÛN

20 Llun 7.30	Y Gadeirlan: gwasanaeth agoriadol (Parch Ddr Keith Clements yw'r siaradwr - Berea a'r Eglwys yng Nghymru yn trefnu)
21 Mawrth 2.00	Tŷ Cwrdd y Crynwyr
22 Mercher 7.30	Capel Pendref
23 Iau 7.30	Penrallt
24 Gwener 7.30	Ein Harglwyddes a St. Iago
30 Iau 7.00	Cyfarfod Blaenoriaid

Y SEIADAU yn seiledig ar gyfrol y Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts
DEHONGLI'R BREGETH AR Y MYNYDD

CHWEFROR

6	Y bregeth ar y Mynydd: ei chefndir a'i chynnwys - Parch Cledwyn Williams
13	Y Gymdeithas - Pawb yn ei Dro
20	Dedwyddwch y Tlodion, Math 5:1-3 - Mr Gareth Emlyn Jones
27	Dedwyddwch y Galarus a'r rhai Addfwyn, Math 5:4-5 - Dr Elin Walker Jones

MAWRTH

3	Y Pur eu Calon a'r Tangnefeddwyr - Mr Arfon H Evans
13	Noson Gŵyl Ddewi gyda Alawtastig - yn dechrau am 6:30
17	Y Rhai a Erlidiwyd, Math 5:10-12 - Mr Wynn Griffiths
24	Halen a Goleuni - Mr A Gwyn Jones
31	Dysgeidiaeth ar y Gyfraith - Parch Ddr Alwyn Roberts

EBRILL

3	Dysgeidiaeth ar Ddicter - Mrs Cynthia Owen
10	Dysgeidiaeth ar Lwon - Mr R Maldwyn Thomas

SYLWER - arweinwyr y Seiat – os oes problem gyda'r dyddiadau cofiwch newid dyddiad gyda rhywun arall gan hysbysu'r gweinidog

18	Bore Dydd Gwener y Groglith - gwasanaeth am 10 o'r gloch a gorymdaith y Groglith am 11 o Eglwys St John's a drefnir gan CYTÛN.